# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **Nos Fawrth 19 Mawrth 2024**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas, a Dyfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Cynghorydd Sir Ken Taylor
Mai Owen – Clerc / SAC

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Lowri Owen.

2. **Datganiad o Ddiddordeb**:
Cyng. K. Taylor - yn datgan diddordeb personol yn y materion cynllunio gan ei fod yn aelod o’r Pwyllgor Cynllunio.
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn eitem 4.3 Neuadd y Pentref Caergeiliog.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 20 Chwefror 2024 fel rhai cywir. (Cynnig Cyng. G. Owen, eilydd Cyng. S. Parry.)

4. **Materion yn codi o'r munudau.**

4.1 Chwarae Field: Dim byd pellach i'w adrodd.

4.2 Diffibriliwr – Roedd diffibriliwr wedi ei osod ar Adeilad yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn ac roedd y clerc wedi gofyn am gyngor gan CSYM ynglŷn â'r math o bostyn ac ati oedd ei hangen ar gyfer uned debyg wrth Stad Rhen Ysgol yng Nghaergeiliog. Nid oedd yr ymateb cychwynnol yn addawol, gallai'r gost fod yn waharddol ac roedd angen gwneud ymholiadau pellach.

4.3 Neuadd y Pentref: trafodwyd y telerau cychwynol a ddarparwyd gan gyfreithiwr Ymddiriedolwyr y Neuadd Bentref yn fanwl ac ymddengys ei fod yn dderbyniol. Byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar ran y Cyngor Cymuned cyn gwneud penderfyniad pendant.

4.4 Parc Solar Traffwll – roedd y gwaith ceblau ar Ffordd Cymyran wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd y tywydd eithafol, ond cafwyd cadarnhad fod y preswylwyr wedi cael mynediad llawn i'w heiddo. Roedd y gwaith ar hyd yr A5 yn symud ymlaen yn fwy cyflym.

4.5 Adnewyddu Rhedfa Camp Fali – Atgoffwyd yr Aelodau am y cyfarfod cyhoeddus oedd wedi ei drefnu 6pm ar 20.3.2024 yn Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel yn Nhowyn.

4.6 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion: dim

**5. Penderfyniadau Cynllunio -** dim

**6. Ceisiadau Cynllunio**

6.1 **FPL/2024/39 70 Ffordd Minffordd / Minffordd Road, Llanfihangel yn Nhowyn**
Cais llawn am newid defnydd adeilad allanol yn fusnes trin cŵn – dim gwrthwynebiad.

6.2 **HP/2024/10 Hen Cymyran, Llanfair yn Neubwll**
Cais ôl-weithredol ar gyfer addasu ag ehangu – Mynegwyd anfodlonrwydd mawr am y cais ôl-weithredol, roedd y newidiadau'n fawr a gwaith helaeth wedi ei gwblhau ers peth amser cyn cyflwyno'r cais.

**7. Materion Ariannol**
Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.2.2024 i 29.2.2024 ynghyd â chysondeb banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £31,041.16, Cyfrif Cadw £4002.75.
Cytunwyd i benodi Mr Alun Foulkes yn Archwilydd Mewnol ar gyfer 2023/24.

7.1 Lwfans Aelodau – Atgoffwyd yr Aelodau o'r angen i gysylltu â'r clerc gyda'u manylion er mwyn gallu gwneud y taliadau. Dylai unrhyw un oedd ddim eisiau'r lwfans anfon cadarnhad ysgrifenedig i'r clerc.

7.2 Rhoddion - cytunwyd i wneud taliadau fel a ganlyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Yr Urdd | 100 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, s. 145 |
| 2. | St John's Ambulance | 50 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, s.2 |

**8.** Taliadau: wedi'u nodi / cytuno.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Chwefror) | £423.84 | Lwfans Aelodau S. Parry | £208 |
| Cyn. Archwiliad | £334 | Lwfans Aelodau L. Owen | £208 |
| Un Llais Cymru | £296 | Prydles IOACC | £137 |
| | | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

9.1 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024

9.2 Grant Mannau Gwyrdd

9.3 Gweithdy Rhanddeiliaid Cam 2 Valley WelTAG – byddai'r Clerc, Cyng. G.O. Jones a K. Taylor yn mynychu hwn. Cytunwyd i bwysleisio'r angen am welliannau i'r palmentydd rhwng Caergeiliog a Llanfihangel yn Nhowyn a goleuadau'r stryd ar Ffordd Minffordd.

9.4 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Chwefror 2024

9.5 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – cofnodion.

9.6 Holiadur Nifty 60's

**10. Adroddiadau Aelodau**

10.1 Cyng. Sharon Parry – yn atgoffa’r Cyngor fod angen glanhau’r lloches fws wrth Eglwys Sant Mihangel. Roedd Cyng. Celfyn Furlong am gael golwg arnynt i gyd ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**11. Cyfarfod nesaf 16 Ebrill 2024**

: